



Cyfarfod

PWYLLGOR SAFONAU

Dyddiad ac Amser

11.00 y.b., DYDD LLUN, 12FED MAWRTH, 2018

Lleoliad

Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 2/3/18)

PWYLLGOR SAFONAU

AELODAETH

Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Beth Lawton
Anne Lloyd Jones
Dewi Wyn Roberts

Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Jacqueline Hughes
Aled Jones
Margaret E. Jones
David Wareing
Einir Young

Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

5. HYFFORDDIANT CYNGHORAU CYMUNED

8 - 9

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

6. SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR SAFONAU

10 - 14

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

15 - 16

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

17 - 22

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, 2017 (ynghlwm).

PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 2 HYDREF 2017

Yn bresennol:-

Aelod Etholedig:- Y Cynghorydd Dewi Roberts.

Aelodau Annibynnol:- Ms Jacqueline Hughes, Aled Jones (Aelod Annibynnol), Miss Margaret Jones, Dr Einir Young (Cadeirydd)

Aelod Pwyllgor Cymunedol: Richard Parry Hughes

Hefyd yn Bresennol: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau:- Mr David Wareing.

Dymunwyd gwellhad buan i Eirian Roberts, Swyddog Cefnogi Aelodau a chroesawyd Ann Roberts, Swyddog Cefnogi Aelodau i'r cyfarfod.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2017 fel rhai cywir yn amodol ar dynnu'r geiriau mewn cromfachau ym mhenderfyniad Eitem 6 (a) Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i waith (ychwanegiadau i'r ddogfen mewn llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu).

3. ADOLYGIAD PROTOCOLAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddau brotocol penodol ar gyfer cefnogi'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Cyfeiriwyd at y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau / Swyddogion ac yn benodol at

- bwynt 21.7 Rolau Cyflogeion. Awgrymwyd bod angen cynnwys geiriad ychwanegol i rôl aelod o ran yr hawl i gynnig polisïau o dan 21.5.
- bwynt 21.9.4 Cyfeillgarwch. Nodwyd bod angen datgan cyfeillgarwch rhwng Aelodau a Chyflogeion. Awgrymwyd
 - o cymharu protocol yr Heddlu efo protocol Cyngor Gwynedd.
 - o addasu geiriad i gynnwys 'creu sefyllfa o amrhiodoldeb'.

Eglurwyd y cyflwynir adroddiad pellach i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn canfasio Aelodau a swyddogion yn gyffredinol ynglŷn â chynnwys a gweithrediad y protocol.

Cyfeiriwyd at y Protocol Rhoddion a Lletygarwch – Aelodau ac yn benodol at bwynt 5.2 'Ni ddylech dderbyn cynigion o letygarwch oni bai fod gwir angen i gyfrannu gwybodaeth neu gynrychioli'r Cyngor yn y gymuned'. Trafodwyd y pwynt yn fanwl ac eglurwyd mai bwriad y pwynt oedd ceisio cael Aelodau i feddlw cyn derbyn gwahoddiadau. Cytunwyd nad oedd unrhyw angen penodol yn dod i'r amlwg i adolygu'r Polisi. .

PENDERFYNWYD derbyn sylwadau fel maent yn cyrraedd.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2016/17

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro a thynnwyd sylw at y gostyngiad yn nifer y cwynion.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod aelodau o'r Cyngor oedd yn sefyll am ailetholiad yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ond nad oedd ymgeiswyr eraill yn ddarostyngedig i'r un rheolaeth. Awgrymwyd dylai'r ymgeiswyr hynny sy'n sefyll etholiad a heb fod yn aelod presennol, fod ynghlwm i brotocol ymddygiad oherwydd bod yr aelodau presennol yn gorfod ymddwyn o dan y protocol. Nodwyd fod rhai cyfyngiadau o fewn cyfraith etholiadol ond nad oeddynt yn cyffelybu a'r Cod.

Nodwyd bod gwybodaeth eang ar safle we'r Cyngor ar gyfer ymgeiswyr newydd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Eglurwyd bod fformat yr adroddiad nawr yn cynnwys manylion am yr honiadau sydd wedi cau yn unig.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

8. CEISIADAU AM ODDEFEB

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar dri chais am oddefeb cyffredinol gan aelodau ardal Bangor mewn cysylltiad ag adolygiad o ddarpariaeth addysg yn ardal Bangor y mae'r Cyngor yn ei gynnal. Cyn ystyried y ceisiadau unigol, rhoddodd y Swyddog Monitro amlinelliad o'r broses trefniadaeth ysgolion. Atgoffodd y Pwyllgor ei fod wedi gosod canllawiau i'w hun ar gyfer ymdrin â cheisiadau o'r fath ac wedi caniatáu goddefebau yn y gorffennol i alluogi aelodau i gymryd rhan mewn trafodaethau lleol.

Datganodd Aled Jones (Aelod Annibynnol) fuddiant yn y mater a gadawodd y cyfarfod.

Manylwyd ar y tri chais yn unigol, sef:-

- Cais gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, yn gofyn am hawl i siarad yn unig oherwydd bod ei chwaer yn gweithio i Feithrinfa Caban y Faenol Cyf, sydd wedi ei leoli ar dir Ysgol y Faenol, Bangor. Mae yn Aelod Lleol dros Arllechwedd, a bydd yn cynrychioli buddiannau'r ysgol sydd yn ei ward, sef Ysgol Llandygai. Byddai buddiant yn codi pe bai trafodaeth ar fater a fyddai'n debygol o effeithio ar Feithrinfa Caban y Faenol yn benodol.
- Cais gan y Cynghorydd Elin Walker Jones, yn gofyn am hawl i siarad yn unig oherwydd ei bod yn Llywodraethwraig yn Ysgol y Garnedd ac Ysgol Tryfan (efo cyfrifoldeb am anghenion addysgol arbennig) a hefyd yn rhiant efo dau blentyn yn Ysgol Tryfan, ac yn gyn-riant yn Ysgol y Garnedd. Eglurwyd mai'r ffaith ei bod yn rhiant â phlant yn Ysgol Tryfan oedd yr unig gysylltiad oedd yn arwain at fuddiant sy'n rhagfarnu.
- Cais gan y Cynghorydd Menna Baines, yn gofyn am hawl i siarad yn unig oherwydd bod ganddi blant sy'n ddisgyblion yn Ysgol Tryfan ac yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol y

Garnedd. Mae hefyd yn Llywodraethwr ar Ysgol y Faenol. Eglurwyd mai'r ffaith ei bod yn rhiant â phlant yn Ysgol Tryfan oedd yr unig gysylltiad oedd yn arwain at fuddiant sy'n rhagfarnu.

Ystyriwyd a phleidleisiwyd ar y tri fesul un a chafwyd o blaid caniatáu'r tri chais am oddefeb ar yr un telerau ac y caniatawyd ceisiadau o'r fath yn y gorffennol.

PENDERFYNWYD

- 1. Caniatáu goddefeb ynglŷn â'r buddiant i'r Cynghorydd Dafydd Meurig i siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor, mewn perthynas â'r broses o adolygu darpariaeth addysg ardal Bangor, ond na chant siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddynt ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y maent yn cymryd rhan ynddo eu bod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arnynt, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**
- 2. Caniatáu goddefeb ynglŷn â'r buddiant i'r Cynghorydd Elin Walker Jones i siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor, mewn perthynas â'r broses o adolygu darpariaeth addysg ardal Bangor, ond na chant siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddynt ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y maent yn cymryd rhan ynddo eu bod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arnynt, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**
- 3. Caniatáu goddefeb ynglŷn â'r buddiant i'r Cynghorydd Menna Baines i siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor, mewn perthynas â'r broses o adolygu darpariaeth addysg ardal Bangor, ond na chant siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddynt ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y maent yn cymryd rhan ynddo eu bod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arnynt, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.55 y.b.

CADEIRYDD

Eitem 5

Pwyllgor :	Pwyllgor Safonau
Dyddiad :	12 Mawrth 2018
Teitl :	Hyfforddiant Cyngorau Cymuned
Awdur :	Swyddog Monitro
Pwrpas :	Cwyflwyno trefn amgen darparu hyfforddiant i Gyngorau Tref a Chymuned

Cefndir

Mae gan y Pwyllgor Safonau y swyddogaethau canlynol

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gyngorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;
- cynorthwyo'r Cyngorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;
- monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cyngorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad Aelodau.

Yn unol ag adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mae'r swyddogaethau yma yn ymestyn i Gyngorau Tref a Chymuned Gwynedd. Mae cyfanswm o 64 o gyngorau o'r fath yng Ngwynedd yn disgyn o fewn cwmrawd cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. Ar draws Cymru mae'r nifer o Gyngorau Tref a Chymuned fesul Cyngor Sir yn amrywio o 1 ym Merthyr i 111 ym Mhowys. Fel ardal wledig fawr mae Gwynedd ymhlith yr uchaf o ran niferoedd.

Trefn Hyfforddi

Mae oblygiadau ymarferol i'r uchod o safbwynt cynnal presenoldeb a chyswllt gyda'r Gyngorau yma. Rydym yn cysylltu yn lled reolaidd gyda newidiadau i'r Cod neu faterion megis trefn datrys fewnol UNLLAIS. Yn ychwanegol mae neges gyffredinol drwy arweiniad yr Ombwdsman a gennym yn y swyddfa ein bod ar gael i ddarparu cyngor a chefnogaeth. Mae amryw o glercod yn manteisio ar y gefnogaeth o bryd i'w gilydd.

Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant yn achlysurol. Mae'r niferoedd sydd yn mynychu o ystyried nifer cyfansawdd y cynghorwyr cymuned sydd yng Ngwynedd yn golygu nad ydym yn cyrraedd trwch helaeth yr aelodau. Y tro diwethaf i ymarferiad ddigwydd cynhaliwyd sesiynau yng Nghaernarfon, Bala, Pwllheli a Dolgellau. Roedd y cynnwys hefyd wedi ei greu ar ôl ymgynghori a chlercod. Cafwyd derbyniad da i'r cyflwyniadau a niferoedd eithaf yn mynychu. Fodd bynnag mae trefnu cwrs mewn lleoliad ac amser arbennig yn ddarostyngedig i nifer o ffactorau all ddylanwadu ar bwy sydd a gall fynychu.

Yn dilyn trafodaeth gyda Swyddogion Monitro eraill gydag ardaloedd cyffelyb crybwyllwyd modd gwahanol o fynd ati sef cynnig darparu hyfforddwr i sesiwn sydd yn cael ei drefnu'n lleol. Yn syml petai'r Pwyllgor yn cefnogi y bwriad fyddai ysgrifennu at glercod yn cynnig darparu hyfforddwr i ddod i gynnal sesiwn awr a hanner i'w hardal a hynny am gost enwol. Gellir teilwrio'r cynnwys i ateb i'r gofyn lleol ond gyda chwrs sylfaenol ar y Cod ac ymarfer scenario. Y Cyngor lleol fyddai'n trefnu'r cwrs.

Byddai angen bod yn fyw na ellir cynnal nifer helaeth mewn blwyddyn a byddai anogaeth gryf i gynghorau gyd-weithio. Ar y llaw arall mae'n ymddangos yn ffordd ymarferol yn fy marn i o ddarparu hyfforddiant sydd yn cyfarch y swyddogaeth tuag at Gynghorau Cymuned ond hefyd yn ddigon hyblyg i ymateb i ofynion lleol.

Argymhelliad

Fod peilot yn cael ei gynnal am flwyddyn sustem hyfforddiant darparu hyfforddwr ar y Cod Ymddygiad i Gynghorau Tref a Chymuned yn unol â'r adroddiad.

Eitem 6

PWYLLGOR :	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD :	12 Mawrth 2018
TEITL :	Swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau
AWDUR :	Swyddog Monitro
PWRPAS :	Cyflwyno Gwybodaeth am Swyddogaethau'r Pwyllgor

1. Cefndir

1.1 Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 'fframwaith foesegol' newydd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Yn ganolbwynt i'r fframwaith yma rhoddwyd dyletswydd ar bob awdurdod i fabwysiadu cod ymddygiad i'w aelodau, ac i bob aelod ymrwymo i barchu'r cod hwnnw wrth dderbyn ei swydd.

1.2 Cyflwynwyd hefyd y ddyletswydd i bob cyngor sefydlu pwyllgor safonau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau'r cyngor ac aelodau cynghorau cymuned a thref y sir. Rhoddwyd dyletswyddau newydd i swyddogion monitro, ac i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r fframwaith yma.

1.3 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau a rhoi pwerau penodol i bwyllgorau safonau, sef:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd (mater lleol anstatudol)
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd (mater lleol anstatudol)

1.4 Mae dyletswydd ar bob un o'r chwedeg pedwar cyngor cymuned a thref o fewn Gwynedd i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad ac i bob aelod ymrwymo iddo wrth ddatgan eu bod yn derbyn eu swyddi. Felly, er mai un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd yw'r Pwyllgor Safonau, mae ei gyfrifoldeb yn ymestyn i weithredu'r swyddogaethau uchod mewn perthynas â holl gynghorywr cymuned a thref y sir (oni bai am y ddau olaf). Adlewyrchir hyn gan y gofyn statudol i aelodaeth pwyllgor safonau gynnwys o leiaf un 'Aelod Pwyllgor Cymunedol', sef unigolyn sydd yn gynghorydd cymuned neu dref (ond sydd ddim yn aelod o'r cyngor sir).

1.5 Yn yr adroddiad hwn byddwn yn edrych yn fanylach ar rai o swyddogaethau'r Pwyllgor.

2. Penderfynu ar geisiadau am oddefebau

2.1 Mae'r Cod Ymddygiad yn darparu na ddylai aelod gymryd rhan mewn cyfarfod, os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu' mewn perthynas â mater sy'n cael ei drafod. Yn ogystal â gadael y cyfarfod pan drafodir y mater, ni ddylai'r aelod geisio dylanwadu ar y penderfyniad mewn unrhyw ffordd.

2.2 Mae gan aelod, serch hynny, yr hawl i ofyn i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan yn y cyfarfod er gwaethaf bodolaeth buddiant sy'n rhagfarnu, sef 'goddefeb' (neu 'ollyngiad').

2.3 Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw sefyllfa'r aelod yn dod o fewn un o'r amgylchiadau penodol a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Serch hynny mater i'r Pwyllgor yw penderfynu os fyddai'n briodol gwneud hynny yn yr amgylchiadau. Gall ganiatáu i aelod gymryd rhan lawn drwy siarad a phleidleisio, neu gyfyngu'r hawl i siarad yn unig. Gall ganiatau goddefeb gyffredinol neu sydd wedi ei gyfyngu i gyfarfod penodol.

2.4 Wrth ddod i benderfyniad bydd rhaid i'r pwyllgor ystyried y budd cyhoeddus, gan gofio mai pwrpas darpariaethau'r cod ymddygiad yn y cyd-destun hwn yw cynnal ffydd y cyhoedd yn y modd y mae awdurdodau yn gwneud penderfyniadau. Mae'r Ombwdsmon, yn ei ganllawiau ar y cod, yn egluro:

"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."

3. Penderfynu ar honiadau yn erbyn aelodau

3.1 Mae Deddf 2000 yn rhoi'r grym i bwyllgorau safonau benderfynu ar gwynion bod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad, ac i osod cosb os ydynt wedi gwneud hynny. Mae swyddogaethau'r pwyllgor yn ffurfio rhan o broses statudol ymchwilio ehangach a gall felly ond ystyried cwynion os ydynt wedi eu cyfeirio'n ffurfiol ato fel rhan o'r broses honno.

3.2 Yr unig ffordd o wneud cwyn ffurfiol bod aelod wedi torri'r cod yw drwy ei chyflwyno i'r Ombwdsmon. Gall unrhyw unigolyn gyflwyno cwyn o'r fath.

3.3 Bydd yr Ombwdsmon rhoi ystyriaeth gychwynol i bob cwyn (ac unrhyw wybodaeth ategol y mae wedi ei dderbyn), drwy ddefnyddio prawf dau gam wrth ystyried os dylai ymchwilio:

- 1) A oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri?
- 2) A oes angen ymchwilio, neu gyfeirio achos at bwyllgor safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru, er budd y cyhoedd? (y 'prawf budd cyhoeddus')

(Yn ôl yr Ombwdsmon yn ei Adroddiad Blynnyddol, o'r 248 o gwynion ynghylch y Cod Ymddygiad a gaewyd yn 2016/17 ar draws Cymru, cafodd y mwyafrif (184) eu cau o dan y categori 'Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynol'.)

3.4 Os bydd yn cynnal ymchwiliad, gall yr Ombwdsmon, ddod i un o dri chasgliad ar ôl ei gwblhau:

- a) Os bydd yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri, bydd yn cau'r ymchwiliad.
- b) Os awgrymir ar ôl adolygu'r dystiolaeth bod y Cod wedi cael ei dorri; gall yr Ombwdsmon benderfynu mewn rhai amgylchiadau nad yw camau pellach yn briodol.
- c) Os bydd yr Ombwdsmon yn canfod bod modd cyfiawnhau'r gŵyn, ac y byddai'n fuddiol cyfeirio'r gŵyn er budd y cyhoedd, gall ei chyfeirio naill ai at Bwyllgor Safonau'r awdurdod perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru, i wneud penderfyniad ar y materion.

3.5 Os yw'n cyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor Safonau, bydd yr Ombwdsmon yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig sy'n manylu ar ei ymchwiliad ac yn egluro ei gasgliadau. Dyletswydd y pwyllgor yw ystyried yr adroddiad a dod i benderfyniad ar y gŵyn, a bydd rhaid dilyn trefn statudol i wneud hynny. Mae dau gam posib i'r broses:

(1) Cyfarfod i benderfynu, ar sail yr adroddiad ysgrifenedig yn unig, unai -

(a) nad oes tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad (bydd hyn yn dod â'r mater i ben); neu

(b) y dylid cynnal gwrandawriad i ystyried y gŵyn a bod yr aelod yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor.

3.6 Bydd yr aelod a gyhuddir, ac ymchwilydd yr Ombwdsmon yn cael mynychu'r gwrandawriad, a fydd yn cael ei gynnal yn gyhoeddus. Mater i'r Pwyllgor yw'r drefn a ddilynir mewn gwrandawriad ac mae'r pwyllgor hwn wedi datblygu gweithdrefn o'r fath.

3.7 Yn dilyn gwrandawriad rhaid i'r Pwyllgor benderfynu:

- (a) Nad oes tystiolaeth bod yr aelod wei torri'r Cod Ymddygiad;
- (b) Bod yr aelod wedi torri'r Cod ond nad oes angen cymryd camau pellach;
- (c) Bod yr aelod wedi torri'r Cod ac y dylai cael ei geryddu, neu
- (ch) Bod yr aelod wedi torri'r Cod ac y dylai gael ei wahardd (yn llawn neu'n rhannol) rhag bod yn aelod o'r awdurdod am gyfnod o hyd at 6 mis

3.8 Yn hytrach nag ymchwilio i'r gŵyn ei hun gall yr Ombwdsmon gyfeirio'r gŵyn at y Swyddog Monitro i'w hymchwilio. Os felly dilynir yr un drefn ag uchod, ond y Swyddog Monitro fydd yn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor.

3.9 Mae hawl gan aelod i apelio yn erbyn y penderfyniad i Banel Dyfarnu Cymru, fydd yn:

- (a) Cadarnhau'r gosb a osodwyd, neu
- (b) Cyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor gydag argymhelliad y dylid gosod cosb wahanol, neu
- (c) Diddymu'r penderfyniad bod yr aelod wedi torri'r cod ymddygiad

3.10 Fel y nodir uchod, gall yr Ombwdsmon gyfeirio ei adroddiad at Banel Dyfarnu Cymru, yn hytrach na'r pwyllgor yn y lle cyntaf. Mae gan y Panel yr hawl i osod cosb lymach na'r Pwyllgor Safonau. Gall atal aelod am hyd at flwyddyn neu ei (g)wahardd rhag bod yn aelod o unrhyw awdurdod perthnasol am hyd at 5 mlynedd.

4. Y Drefn Ddatrys Leol

4.1 Er mai'r drefn a ddisgrifir uchod yw'r unig ffordd y gellir ystyried cwyn ffurfiol yn erbyn aelod mae gan Gyngor Gwynedd drefn ddatrys leol ac mae gan y Pwyllgor Safonau rôl yn y drefn honno.

4.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dwy ddogefn sy'n berthnasol i'r drefn hon sef y Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog, sy'n hybu cydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor, a Safon Gwynedd sy'n hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau y Cyngor.

4.3 Pwrpas y drefn yw sicrhau bod modd ymdrin yn effeithiol a chyflym gydag unrhyw honiad bod aelod wedi torri'r Protocol neu'r Safon. Mae hyn yn golygu mai aelodau neu swyddogion Cyngor all gyflwyno cwyn o dan y drefn.

4.4 Yn gryno mae'r drefn fel a ganlyn:

- Rhaid cyflwyno cwyn i'r Swyddog Monitro

- Cam 1 - bydd y Swyddog Monitro yn ei chyfeirio at y Dirprwy Swyddog Monitro neu'r Uwch Gyfreithiwr a fydd yn cynghori'r achwynydd os yw'r gwyn yn dod o fewn y drefn ynteu a ddylid ei chyfeirio at yr Ombwdsmon.
- Os bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen gyda'r honiad, gellir cyfeirio'r mater naill ai i gyfarfod cymodi (Cam 2) neu i wrandawriad gan y Pwyllgor Safonau (Cam 3).
- Cam 2- cyfarfod rhwng y sawl sy'n cwyno, yr aelod y gwneir yr honiad yn ei (h)erbyn, Arweinydd Grŵp Gwleidyddol perthnasol a'r Prif Weithredwr a/neu'r Swyddog Monitro. Bwriad y cyfarfod yw ceisio datrys y mater heb fynd ymhellach.
- Cam 3 - gwrandawriad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd gan y sawl sy'n cwyno a'r aelod sy'n destun y gŵyn yr hawl i ymddangos gerbron y pwyllgor. Gall y pwyllgor ddod i un o dri penderfyniad, sef:-
 - a. Nad oes sail i'r honiad
 - b. Bod sail i'r honiad, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach
 - c. Bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r aelod

Yn ychwanegol gall y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â newid unrhyw gyfundrefnau neu gymryd unrhyw gam pellach.

Ni roddir cyhoeddusrwydd i enwau'r partion on i bai y penderfynir bod sail i'r honiad. Bydd y gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Safonau yn eithredig.

Nid oes dim yn y drefn yn atal hawl unrhyw unigolyn i gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon.

5. Argymghelliad

5.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn y wybodaeth

Eitem 7

Pwyllgor :	Y PWYLLGOR SAFONAU
Dyddiad :	12 Mawrth 2018
Teitl :	Honiadau yn erbyn aelodau
Awdur :	Swyddog Monitro
Pwrpas :	Er gwybodaeth

1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

2. Penderfyniadau

Cwyn 201704855

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi bod yn rhan o benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd tystiolaeth ddigonol i gadarnhau'r gŵyn bod yr aelod wedi bod yn gyfrifol am ddatgelu'r wybodaeth

Cwyn 7294/201705172

Cwyn gan aelod cyngor tref bod cyd -aelod wedi cyflwyno cwyn flinderus yn ei herbyn i'r Ombwdsmon.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Roedd y gŵyn dan sylw wedi ei derbyn gan yr Ombwdsmon fel cwyn i'w hymchwilio, ac felly ni allai ddod i'r casgliad ei bod yn flinderus.

Cwyn 201706038

Cwyn bod aelod wedi defnyddio ei statws fel aelod etholedig i ddylanwadu ar yr heddlu i weithredu yn erbyn yr achwynydd mewn perthynas â chwyn am aflonyddu.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd ond fel unigolyn preifat.
- Nid oedd y sylwadau a wnaed gan yr aelod yn effeithio ar enw da'r Cyngor.

Cwyn 201706123

Cwyn gaen aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi gwrthod ymwneud ag ef mewn perthynas â materion yn ymwneud â'i eiddo ac anghydfod rhyngddo â'r Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Mater i gynghorydd yw penderfynu os yw am gyfarfod neu ohebu gydag aelodau o'r cyhoedd. Prif ddyletswydd aelodau yw cynrychioli trigolion o fewn eu hetholaethau, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ymdrin â phob mater unigol a adroddir iddynt.

3. Achosion Agored

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- | | |
|--|---|
| • Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio | 2 |
| • Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad | 2 |

4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Llun, 10 Ebrill 2017 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Cyngor Sir Ddinbych – Ian Trigger
Cyngor Sir Ynys Môn - Mared Yaxley, Mike Wilson ac Islwyn Jones
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - John Roberts ac Iain Moore
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Michael Pugh a Neil Benson
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Rachael M. Davies

HEFYD YN BRESENNOL

Cyngor Sir Ddinbych, Swyddog Monitro - Gary Williams
Gweinyddwr Pwyllgorau - Sharon Walker

1 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Cytunwyd yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2016 yn Llangefni y byddai'r Fforwm yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn mewn Awdurdod Lleol gwahanol yn ei dro, ac yn cael ei gadeirio a'i weinyddu gan yr awdurdod cynnal gyda Swyddog Monitro'r awdurdod cynnal yn bresennol. Felly, penodwyd Ian Trigger, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan Sharon Warne, Einir Young a Jane Eyton-Jones.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 HYDREF 2016

Cyflwynwyd cofnodion Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llangefni ar 17 Hydref, 2016.

Cynigiwyd y cofnodion gan Mike Wilson a'u heilio gan Islwyn Jones.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2016 fel cofnod cywir.

4 AELODAETH ESTYNEDIG Y FFORWM

Esboniodd y Cadeirydd fod Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ceredigion wedi cysylltu ag o i ganfod a fyddai modd i gynrychiolwyr Pwyllgor Safonau Ceredigion ynghyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru a Phwyllgor Safonau Powys ymuno ag aelodaeth Fforwm Safonau Gogledd Cymru.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod wedi ymgynghori â holl Swyddogion Monitro Gogledd Cymru a nododd nad oedd unrhyw broblemau ynghylch y cais hwn. Yr unig broblem fyddai teithio, ond byddai croeso mawr iddyn nhw fynychu'r cyfarfodydd.

Yn ystod y drafodaeth, cytunodd aelodau eu bod o blaid y tri Awdurdod yn mynychu cyfarfodydd gan fod rota'r cyfarfodydd wedi'i chadarnhau am y ddwy flynedd nesaf.

Nododd y Swyddog Monitro y byddai'n cysylltu â Swyddogion Monitro eraill Gogledd Cymru ac y byddai un yn cael ei enwebu i ysgrifennu, gyda gwahoddiad yn atodi rota'r cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD fod Swyddog Monitro enwebedig yn ysgrifennu i wahodd y tro Awdurdod i fynychu cyfarfodydd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru, ac atodi rota o gyfarfodydd er gwybodaeth.

5 PROTOCOL DATRYSIADAU LLEOL ENGHREIFFTIOL AR GYFER CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Fforwm fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn mynd i gyflwyno Protocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Yn dilyn ymgynghoriad ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, roedd Un Llais Cymru yn llunio'r Protocol Datrysiadau Lleol drafft. Codwyd y mater i ganfod barn aelodau'r Fforwm.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n ysgrifennu at y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i ganfod eu barn ar y Protocol Datrysiadau Lleol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cael Gweithdrefn Ddatrys Leol yn ddefnyddiol yn ei farn o.

Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y byddai'r Protocol yn ddefnyddiol iawn i gael cysondeb ymysg y cyngorau.

Roedd y Fforwm o'r farn y dylai Un Llais Cymru fod wedi ymgynghori â Chynghorau ynghylch creu drafft o'r Protocol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Clercod o blaid y Protocol ac y byddai'r drafft yn bwynt dechrau eithriadol ar gyfer y fersiwn derfynol.

Awgrymwyd bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i ymholi a oedd ymgynghoriad wedi'i gwblhau ac i fynegi siom y Fforwm yn y ffaith na chynhaliwyd ymgynghoriad gydag Awdurdodau Lleol a Phwyllgorau Safonau. Pwynt arall a godwyd oedd nad ymddengys fod unrhyw rôl ar gyfer y Pwyllgorau Safonau, ond y dylid ystyried hynny hefyd. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn gytûn.

PENDERFYNWYD:

- *Bod y Fforwm yn gytûn o ran cael Protocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned;*
- *Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i fynegi siom y Fforwm yn y diffyg ymgynghori, ynghyd â dim rôl ar gyfer Pwyllgorau Safonau.*

6 CYFARFOD SEFYDLU A HYFFORDDIANT AR FATERION MOESEGOL I AELODAU NEWYDD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro y Cyfarfod Sefydlu a Hyfforddiant ar Faterion Moesegol i Aelodau Newydd.

Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried cynhyrchu set o ddeunydd hyfforddi i'w ddefnyddio ar draws Cymru. Cafodd hyn ei gyflwyno i Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych a oedd o blaid y syniad.

Awgrymwyd bod Clercod yn mynychu hyfforddiant er mwyn eu galluogi i ailgyflwyno'r hyfforddiant i'w Haelodau. Byddai pecyn e-ddysgu yn cael ei lunio hefyd, er mwyn galluogi i'r hyfforddiant fod yn fwy hygyrch, a dylai fod ar gael ddechrau mis Mai 2017.

Eglurodd yr aelodau a oedd yn bresennol y cynlluniau hyfforddi oedd ganddyn nhw ar waith ar gyfer Cyngorwyr, a chadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd terfynau amser ar gyfer cynnal yr hyfforddiant. Er enghraifft, hyfforddiant Cod Ymddygiad hanfodol i'w gynnal o fewn cyfnod o amser byr yn dilyn yr etholiad, a sesiwn hyfforddi gloywi i'w gynnal ymhen 18 mis. Cadarnhaodd hefyd y byddai ar gael i fynychu sesiwn hyfforddiant byr pe bai gan Clercod unrhyw faterion penodol.

Cadarnhawyd nad oedd gan Awdurdodau Lleol eraill, oni bai am Sir Ddinbych, hyfforddiant Cod Ymddygiad hanfodol yn eu cyfansoddiad.

PENDERFYNWYD *bod y Fforwm yn cytuno ar y Cyfarfod Sefydlu a'r Hyfforddiant ar Faterion Moesegol i Aelodau Newydd.*

7 GWEFANNAU CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd Mike Wilson o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn yr eitem. Nododd fod pob Cyngor Tref a Chymuned wedi cael grant o £500 i helpu i sefydlu eu gwefannau. Yn Ynys Môn, roedd ganddynt 40 o Gyngorau Tref a Chymuned gyda graddau amrywiol o safonau gwefan. Roedd ychydig heb wefan ac un heb gyfrifiadur.

Yn ystod y trafodaethau, cadarnhawyd bod nifer o wefannau Cyngorau Tref a Chymuned yn cynnwys hen wybodaeth.

Cytunodd yr aelodau y dylid diweddarau'r gwefannau er tryloywder, yn ogystal â'r ffaith y byddai'r archwilyr allanol yn gwirio digonolrwydd y gwefannau.

Awgrymodd y swyddog Monitro fod aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn mynychu'r Cyngorau Tref a Chymuned, er mwyn annog y Clercod i gysylltu â'i gilydd i helpu gyda'r gwefannau.

Roedd Ynys Môn wedi anfon adroddiadau i bob Cyngor Cymuned gan ofyn iddynt ymateb o fewn 12 mis.

PENDERFYNWYD bod y Fforwm yn cytuno bod gwybodaeth ddiweddar yn cael ei chynnwys ar y gwefannau, gan ofyn am gymorth gan Clercod cyfagos pe bai angen.

8 DEFNYDDIO PWYLLGORAU SAFONAU AWDURDOD CYFAGOS AR GYFER GWRANDAWIADAU SY'N YMWNEUD AG ANGHYTUNDEBAU MEWNOL

Cyflwynodd y Pwyllgor Monitro y defnydd o Bwyllgorau Safonau Awdurdod cyfagos ar gyfer Gwrandawiadau sy'n ymwneud ag anghytundebau mewnol.

Yn ystod trafodaeth, roedd pawb yn gytûn na ddylid defnyddio Pwyllgorau Safonau Awdurdod cyfagos. Y prif reswm am hyn oedd bod aelodau Pwyllgorau Safonau yn aelodau annibynnol, oni bai am aelodau'r cyngor sir. Pe bai aelodau'r cyngor sir yn cymryd rhan, yna efallai y byddai angen amdano, ond fel arall roedd y Pwyllgor Safonau yn broffesiynol annibynnol i ddelio â'r materion.

Byddai defnyddio Pwyllgorau Safonau Awdurdodau cyfagos yn broses ddrud hefyd.

PENDERFYNWYD bod y Fforwm yn cytuno y dylid cynnwys Pwyllgor Safonau Awdurdod cyfagos mewn gwrandawiadau pe ceid amgylchiadau eithriadol yn unig, oherwydd bod y Pwyllgor Safonau yn broffesiynol annibynnol i ddelio â gwrandawiadau.

9 UNRHYW FATER ARALL

Tynnodd Mike Wilson o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn sylw at y ffaith bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi gwrthod cwyn yn ddiweddar, ond wedi argymhell hyfforddiant ar gyfer y cynghorwyr dan sylw.

Roedd y cynghorwyr dan sylw wedi mynychu hyfforddiant ym mis Mai 2016, ac felly roedd y Pwyllgor Safonau yn ansicr o ran pa hyfforddiant y dylid ei ddarparu.

Am nad oedd yr holl wybodaeth ar gael, awgrymwyd eu bod yn cysylltu â swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ganfod pa hyfforddiant sydd i'w gynnig i'r cynghorwyr.

-----o0o-----

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at hyfforddiant cyfryngu. Roedd Swyddog Hyfforddiant Sir Ddinbych i gysylltu ag eraill yn yr ardal i fynd â'r mater yn ei flaen. Byddai'r sesiynau hyfforddi yn para am 5 diwrnod.

Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ym mis Tachwedd (dyddiad i'w gadarnhau) yn Wrecsam.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 a.m.

